Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Cyfarfod Llawn

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 20 Chwefror 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

## Agenda
(114)v3

**1. Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (45 munud)**

Gweld y cwestiynau

**2. Cwestiynau i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (45 munud)**

Gweld y cwestiynau

**3. Dadl ar ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ofal preswyl i bobl hŷn yng Nghymru (60 munud)**

NDM5165 Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd)

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ei ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn yng Nghymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Rhagfyr 2012.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Chwefror 2013.

Dogfennau Ategol:
Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ei ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn yng Nghymru

Ymateb Llywodraeth Cymru

**4. Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid, 'Effeithiolrwydd Cyllid Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru' (60 munud)**

NDM5166 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Effeithiolrwydd Cyllid Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Rhagfyr 2012.

**Dogfennau Ategol:**
Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Effeithiolrwydd Cyllid Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru

Ymateb Llywodraeth Cymru

**5. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)**

NDM5167 Aled Roberts (Gogledd Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod Stats Cymru yn amcangyfrif bod 31,644 o gartrefi gwag yng Nghymru, gyda 23,287 wedi'u dosbarthu fel anheddau gwag tymor hir.

2. Yn croesawu bwriad cynllun 'Troi Tai'n Gartrefi' Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y £5 miliwn ychwanegol a fuddsoddir yn y cynllun o ganlyniad i'r fargen ar y gyllideb gyda Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn 2012-13.

3. Yn croesawu'r cynnydd o ran lleihau nifer y cartrefi gwag yng Nghymru 2,000, ond yn credu bod angen gwneud rhagor i ddatblygu strategaeth tai gwag gydlynol, sy'n cynnwys:

a) creu gwefan Cartrefi Gwag Cymru i rannu cyngor a chyfarwyddyd ac i godi proffil y cynllun cartrefi gwag;

b) Swyddog Cartrefi Gwag cyfwerth ag amser llawn ym mhob awdurdod lleol i fynd â'r cynllun rhagddo;

c) symleiddio'r ddeddfwriaeth a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â Gorchmynion

Rheoli Anheddau Gwag a Gorchmynion Prynu Gorfodol;

d) diweddaru canllawiau arfer da cartrefi gwag i awdurdodau lleol;

e) rhoi rhagor o hyblygrwydd i gynghorau osod cyfraddau'r dreth gyngor cosbol ar gartrefi gwag tymor hir;

f) hybu rhannu enghreifftiau o'r arfer gorau a hwyluso gwaith partneriaeth rhwng awdurdodau lleol; ac

g) edrych ar gynllun cymhellion i gynghorau lleol ar gyfer pob cartref sector preifat tymor hir sy'n cael ei ddefnyddio unwaith eto, yn debyg i gynllun 'New Homes Bonus Scheme' Llywodraeth y DU.

Ceir gwybodaeth am y cynllun Troi Tai'n Gartrefi drwy fynd i:

http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/housing/private/emptyhomes/housestohomes/?skip=1&lang=cy

Ceir gwybodaeth am y New Homes Bonus Scheme drwy fynd i:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/6004/1846530.pdf

https://www.gov.uk/government/policies/increasing-the-number-of-available-homes/supporting-pages/new-homes-bonus

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys pwynt 1 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn nodi bod cartrefi gwag yn cynnig cyfle i adfywio tai sy'n rhoi hwb bwysig i'r economi.

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 1:

‘ac y gellid defnyddio eiddo o'r fath i liniaru ar yr angen nas diwallwyd am dai cymdeithasol'

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd is-bwynt 3b:

‘gan gydnabod bod gan bob cartref gwag ei stori ei hun ac mai’r hyn sy’n bwysig yw bod Swyddogion Cartrefi Gwag yn deall pam ei fod yn wag, ac yn gweithio’n agos gyda’r perchennog i ddechrau ei ddefnyddio eto’

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd is-bwynt 3e:

‘drwy greu premiwm treth gyngor cartrefi gwag ar gyfer eiddo sy’n cael ei adael yn wag am dros ddwy flynedd, er mwyn bod yn sensitif i amgylchiadau unigol - fel perchnogion sydd wedi cael profedigaeth neu berchnogion â phroblemau cymhleth y byddai modd, gyda chefnogaeth, ceisio’u datrys’

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 3:

‘lobïo Llywodraeth y DU i ostwng TAW ar atgyweirio a gwneud gwelliannau i gartrefi i 5%.’

**Gwelliant 6 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 3:

‘sicrhau bod cyllid ar gael i grwpiau cymunedol a gwirfoddol fel rhan o raglen i ddechrau defnyddio eiddo gwag eto fel tai fforddiadwy;’

**Gwelliant 7 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 3:

‘caniatáu mwy o hyblygrwydd wrth ddefnyddio eiddo sy’n cael ei ariannu o dan y fenter ‘Troi Tai’n Gartrefi’, er mwyn sicrhau cymaint o fudd â phosibl i’r rheini sydd mewn angen o ran tai;’

**Cyfnod Pleidleisio**

**6. Dadl Fer (30 munud)**

NDM5168 Lynne Neagle (Tor-faen):

Lleddfu’r Ergyd

Lliniaru Effaith y Dreth Ystafelloedd Gwely yng Nghymru

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 26 Chwefror 2013

Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 13 Chwefror 2013 i'w hateb ar 20 Chwefror 2013

R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Gofyn i Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

1. Keith Davies (Llanelli): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Cyfoeth Naturiol Cymru. OAQ(4)0218(ESD)W

2. Eluned Parrott (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gasgliadau gwastraff cartrefi yng Nghanol De Cymru. OAQ(4)0221(ESD)

3. Ken Skates (De Clwyd): A wnaiff y Gweinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â'r perygl o lifogydd. OAQ(4)0220(ESD)

4. Paul Davies (Preseli Sir Benfro): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Barthau Cadwraeth Morol Gwarchodedig Iawn yng Nghymru. OAQ(4)0214(ESD)

5. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am effaith yr ardoll ar fagiau siopa untro. OAQ(4)0224(ESD)

6. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am oblygiadau ariannol yr achos busnes sy'n ymwneud â'r corff newydd, Cyfoeth Naturiol Cymru. OAQ(4)0226(ESD)W

7. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd): Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hybu ynni solar yng Nghymru. OAQ(4)0217(ESD)

8. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i wella'r ddarpariaeth o fannau agored o ansawdd uchel gan ddatblygwyr tai drwy'r system gynllunio. OAQ(4)0223(ESD)

9. Elin Jones (Ceredigion): A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisi Llywodraeth Cymru ar geisiadau cynllunio ôl-weithredol. OAQ(4)0216(ESD)W

10. Peter Black (Gorllewin De Cymru): Pa waith y mae'r Gweinidog wedi'i wneud yn ddiweddar ar ymchwilio i dechnolegau amgen ar gyfer

gwaredu gwastraff. OAQ(4)0215(ESD)

11. **Andrew RT Davies (Canol De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei weithgareddau diweddar yn ymwneud â lles anifeiliaid. OAQ(4)0225(ESD)

12. **William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cymorth sydd ar gael i gynhyrchwyr ynni adnewyddadwy yng Nghymru. OAQ(4)0222(ESD)

13. **Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion am unrhyw adolygiad neu waith y mae ei swyddogion wedi'i wneud ar Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo ac, yn benodol, y gofyniad clustogfa. OAQ(4)0219(ESD)

**Gofyn i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth**

1. **Lynne Neagle (Tor-faen)**: A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i liniaru effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU ar y rheini sydd ag anghenion o ran tai yng Nghymru. OAQ(4)0224(HRH)

2. **Llyr Huws Gruffydd (Gogledd Cymru)**: Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i gynorthwyo cwmnïau drama amatur yng Nghymru. OAQ(4)0221(HRH)W

3. **Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Raglen Ardal Adfywio Cymoedd y Gorllewin. OAQ(4)0216(HRH)

4. **Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hybu treftadaeth Gristnogol Cymru. OAQ(4)0213(HRH)

5. **Nick Ramsay (Mynwy)**: A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei gynlluniau i adfywio'r stryd fawr yng Nghymru. OAQ(4)0225(HRH)

6. **Aled Roberts (Gogledd Cymru)**: A yw'r Gweinidog wedi cael cynllun busnes derbyniol gan bob awdurdod lleol sy'n dangos sut y byddant yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru. OAQ(4)0214(HRH)W

7. **Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd y cynllun gwarant morgais newydd. OAQ(4)0226(HRH)W

8. **Christine Chapman (Cwm Cynon)**: Beth yw dull gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer annog cymunedau i ddatblygu dealltwriaeth well o'u treftadaeth eu hunain. OAQ(4)0212(HRH)

**9. Ken Skates (De Clwyd)**: A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei gynlluniau ar gyfer adfywio wedi'i arwain gan dreftadaeth yn 2013. OAQ(4)0217(HRH)

**10. Mark Isherwood (Gogledd Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru i helpu prynwyr tro cyntaf. OAQ(4)0222(HRH)

**11. Keith Davies (Llanelli)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei asesiad o effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU ar ddarpariaeth tai yng Nghymru. OAQ(4)0215(HRH)W

**12. Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am dreftadaeth filwrol Cymru. OAQ(4)0223(HRH)

**13. Mick Antoniw (Pontypridd)**: Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gydnabod 200 mlynedd ers genedigaeth John Hughes y flwyddyn nesaf. OAQ(4)0218(HRH)

**14. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r nifer o bobl yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru y bydd y newid mewn budd-dal tai yn effeithio arnynt. OAQ(4)0220(HRH)W

**15. Janet Finch-Saunders (Aberconwy)**: A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei bolisïau ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru. OAQ(4)0219(HRH)